OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1385 (Cy.135)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2002

Wedi'u gwneud - -	*16 Mai 2002*
Yn dod i rym - -	*17 Mai 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 22(6), (7), (8), (9), (10), (11) a (12), 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**):

Enwi, cychwyn, a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym ar 17 Mai 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygiad i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru)

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (4) o Reoliad 5 rhowch:

"(4) Ni chaiff eitem fusnes ei hystyried mewn cyfarfod oni bai bod—

(a) copi o'r agenda gan gynnwys yr eitem (neu gopi o'r eitem) yn agored i aelodau o'r cyhoedd ei archwilio yn unol â pharagraff (1):

(i) am o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod; neu

(ii) pan fydd y cyfarfod yn cael ei gynnull ar rybudd byrrach, o'r amser y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnull; neu

(**1**) 2000 p.22
(**2**) O.S.2001/2290 (Cy. 178)